

(Parhâd o dudalen 15)


ciniawa ag ef bron bob dydd mewn bwyty Tsieineaidd ym Mangor. Gŵr boneddigaidd a diymhongar ydoedd, a sgwrsiwr diddan. Bu'n garedig wrthyf ar adeg anodd iawn imi. Casâi Lundain a phob dinas fawr, meddai wrthyf; pan welai ei bod hi'n fain arno am arian, cydi-ai mewn paentiad, picio ar y trên i Lundain, ei werthu, a dal y trên cyntaf yn ôl. Holais baham yr oedd ei ddarluniau mor dywyll, ac eglurodd ei bod hi'n anodd iddo wynebu'r haul, gan na allai canhwyllau ei lygaid grebachu fel y dylent.

Soniodd wrthyf am y tro, mewn clwb dethol yn Llundain, y cwrddodd â Saunders Lewis. 'Roedd y ddau'n gyn-swyddogion gwarchodlu, ond gŵr main tal oedd Kyffin, a gŵr bychan bach oedd S.L. Cyflwynwyd Kyffin iddo fel 'a well-known artist'. Edrychodd S.L. yn ddirmygus ar Kyffin, o'i gorun i'w sawdl, gan ddweud yn swta: 'What, you an artist? You don't look anything like an artist!' a throi ar ei sawdl a'i adael.

Aeth rhyw ddeng mlynedd ar hugain heibio cyn imi ei weld eto, pan oedd yn llofnodi copïau o'i lyfr yng Nghaernarfon. Chwarae teg iddo, nid oedd wedi f'anghofio'n llwyr. Gwelsom ef ryw ddwywaith wedyn, a chwarsom wahoddiad i alw i'w weld yn ei gartref ym Mhwliffanogl. Ni hoffem darfu arno, ac nid aethom. Gresyn hynny: ond mae'n rhy hwyr i fod yn edifar bellach.

Diwrnod (arall) i'r brenin.

Un Sadwrn braf ym Mehefin, aethom ar sgawt i Borthmadog. Yr oedd y dref (fel arfer) dan ei sang, a dyma ni'n anelu am gornel dawel, sef Pen Cei, a Chaffi Madog y Morwr. Lle cawsom gawl crancod tra blasus wrth fwrdd ar lan y cei, yn yr heulwen. Bron na chredem ein bod yn Ne Ffrainc. (Ble mae Pen Cei? Ar ôl croesi'r cob a phont Britannia, a mynd heibio gorsaf y Lein Bach, trowch i'r chwith heibio'r parc, ac i'r chwith eto ac i'r dde at y cei. Mae lle cyfleus i barcio yno, a thafarn



Tŵr Plas Brondanwy

lle ceir dewis da o fwydydd; ysywaeth fe gaewyd Caffi Madog bellach.)

Gardd fechan yn y dull Eidalaid

Wedyn treulwyd awr ddiddan mewn siop elusen hosbis ym mhen draw Stryd yr Wyddfa, siop lawn llyfrau digon graenus a gwerth chweil. Ar ôl gwario'n ffri (wedi'r cwbl, mae o at achos da!), i ffwrdd â ni i bentref y Garreg ger Llanfrothen. Tybed a oedd modd ymweld â Phlas Brondanw, hen gartref Clough Williams Ellis?

Nac oedd, ac nid oedd neb aelod o staff i'n croesawu; ond os ewch i mewn heibio'r gatws mae modd parcio a cherdded rhyw ganllath at y fynedfa i'r ardd. Ymddiriedir ynoch i roi tair punt y pen mewn blwch i gael mynd i mewn. Cymharol fechan yw'r ardd, ond, yn y dull Eidalaid, fe'i rhennir yn 'ystafelloedd' gan wrychoedd tal, a gellir crwydro o'r naill i'r llall ar hyd rhodfeydd a rydd ichwi olwg ar Gnicht a'r mynyddoedd eraill oddi amgylch. Ceir llwyni a gwelyau blodau hardd, orendy a phystyll a phwll, cerfluniau a phob math o ffi-giaris hen ffasiwn a rhyfeddol. Prin oedd yr ymwelwyr eraill, a mwyn fu treulio orig hamddenol yn cysgodi rhag y gwres. Wrth ddod allan, gwelsom arwydd yn addo yr agorid caffi yno maes o law.

Ar y chwith, gwahoddiad arwydd ni i weld y tŵr. Yn chwylfrydig dyma droedio'r llwybr trwy dir coediog. Uwchben llyn prydferth, a fu gynt yn chwarel, safai wrn anferth - *The Flaming Urn*, chwedl llechen a goffai ail-gyfodiad y Plas, megis ffenics, yn Rhagfyr 1953 ddwy flynedd ar ôl ei ddifa gan dân. Pwy tybed a luniodd yr unig eiriau Cymraeg arni: 'Yn gadarn yr ail-godwyd/Brondanw o'r lludw llwyd.'


Tŵr Brondanw a phethau ffôl eraill.

Ymhen rhyw chwarter awr dyma gyrraedd tŵr a saif yn drawiadol ar godiad o dir, a mur adfeiliedig gydag adwy ynddo wrth ei droed. Mae rhyw bum llawr iddo, a gellir esgyn gyda chryn ofal i'w gopa. Lle ceir golygfeydd ardderchog o'r tir o'ch cwm pas, ac o'r môr yn y pellter. Syndod mawr fu hyn imi, a fagwyd yn yr ardal, ond heb erioed glywed sôn am y tŵr.

Fe dybiech yn hawdd mai adfail yw o oes y Tywysogion - mae'n hynod debyg i gastell Dolbadarn. Eithr ar lechen gerllaw eglurir sut y codwyd y tŵr hwn yn 1915 fel anrheg briodas i Clough a'i wraig Amabel Strachey gan ei gyd-swyddogion yn y Gwarchodlu Cymreig. Ychwanegir 'In the Second World War it was prepared as a local military strong point to repel the expected German invasion.' Meddyliwch am y peth, mewn difrif!

Codi Tŵr adeg rhyfel Napoleon

Twyll cywrain yw'r cyfan, enghraifft wych o'r hyn a elwir yn 'folly' gan y Sais. Byddaf yn ffoli ar bethau o'r math, ac yn dal ar bob cyfle i'w gweld, lle bynnag yr elwyf. Ceir tŵr arall, ond un cyfan, nid ffug-adfail, ar dir Plas Glynllifon. Codwyd ef, Fort Williamsbourg, gan yr Arglwydd Newborough adeg y rhyfel yn erbyn Napoleon. (Bellach ni chewch fynd ato gan iddo ddadfeilio'n beryglus.) Mae ffolïau eraill yno - gwelsom y feudwyfa (neu 'Eglwys y cŵn!'), ac yn ôl y map mae dau arall, sef cwt cychod ac 'ynys Tsieineaidd'.



Fort Williamsbourg

Gwelais dŵr ffolïaidd yr olwg ger Dolbenmaen, a daethom ar draws ffolïau eraill yn ardal Llandegfan ym Môn. Ceir nifer o lyfrau yn Saesneg am ffolïau, ond prin yw'r rhai Cymreig a restrir ynddynt. Hyd y gwn ni fu erioed lyfr Cymraeg yn eu cylch. Dyna faes ymchwil diddorol i rywun â char a chamera a hamdden ganddo - beth amdani?

Galw Alltudion 'Stiniog'

Maddeuer imi am unwaith os rhoddaf hwb i'm hen gynefin annwyl. Bu gennyf le, gynt, i ddiolch am ofal staff Ysbyty'r Blaenau. Bellach cyhoeddir ei hanes: *Ysbyty Coffa Dewrion Ffestiniog a'r Cylch 1925 - 1948* gan y Dr Eddie Davies, Pentrefoelas, un o hogiau alltud 'Stiniog. Ni chyhoeddir ond 500 copi felly brysiwch i archebu eich copi. Ffoniwch (01766) 762429 neu 830294 neu 830305; neu, gofynnwch i Siop yr Hen Bost gadw copi ichwi. Ei bris fydd £4, a chan fod bygythiad i barhad yr ysbyty, rhoddir holl arian y gwerthiant i gronfa Pwyllgor Amddiffyn yr Ysbyty Coffa.

Gyda llaw, a fyddwch yn derbyn Llafar Bro, papur misol yr ardal? Ei bris: 30c + post y mis. Ffonier Selwyn Williams, 97 Heol Wynne, Blaenau Ffestiniog, 01766 831612.

Morynion Glân Meirionnydd.

'Hardd flodau Ffestiniog i mi', chwedl y gân, a dyna a ddywedwch chwithau pan welwch y calendr a gyhoeddwyd ar gyfer 2007 i godi arian ar gyfer Macmillan Cancer Support. Cymaint fu gwres Gorffennaf nes i nifer o'r merched sy'n gweithio ar y Lein Bach orfod diosg eu dillad, a digwyddodd ffotograffydd fod yno i gadw ar gyfer yr oesoedd a ddêl y glendid a fu. Rhuthrwrch am eich copi o'r calendr, gan fod cip arno eisoes. Ei bris: £7 + post £1. Rhoddir o leiaf 65% i'r elusen. Anfoner at: *The Calendar*, 16 Holland St., Crewe, Cheshire, CW1 3TT, gyda siec yn daladwy i 'For the Calendar'. A mwynhewch y flwyddyn newydd!